

**PWYLLGOR CRAFFU
LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD**

23 IONAWR 2023

PRESENNOL Cyngorydd J.D. James (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

T.A.J. Davies K. Davies B.D.J. Phillips G.B. Thomas

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

S.M. Allen D.M. Cundy M. Donoghue W.T. Evans
T.M. Higgins N. Lewis

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

Cyngorydd A. Lenny, Yr Aelod Cabinet dros Adnoddau;
Cyngorydd A. Vaughan Owen, Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd;
Cyngorydd E. Thomas, Yr Aelod Cabinet dros Transport, Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith.

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
J. Edwards, Rheolwr Gwella Busnes;
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol;
D.W. John, Pennaeth Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol Dros Dro;
R. S. Waters, Rheolwr Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
R. James, Cyfrifydd Grŵp;
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aelodau;
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):

R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP: 2:00yp - 4:00yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr S. Godfrey-Coles, C. Evans, G. Jones a P. Cooper.

2. DATGANIADAU O FUDDIANAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

Y Cyngorydd	Rhif y Cofnod(ion)	Y Math o Fuddiant
A. Davies	5 - Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 hyd at 2025/26	Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn croesi tir y mae'n berchen arno.
D. Phillips	5 - Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 hyd at 2025/26	Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn croesi tir y mae'n berchen arno.
G. Thomas	5 - Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 hyd at 2025/26	Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn croesi tir y mae'n berchen arno.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor eglurhad am beidio â chyflwyno'r Cynlluniau Busnes Adrannol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

- 4.1 derbyn y dyddiad diwygiedig ar gyfer y Cynlluniau Busnes Adrannol;**
- 4.2 nodi'r esboniad dros beidio â'i gyflwyno.**

5. YMGYNGHORI YNGHYLCH STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2023/24 TAN 2025/26

[Sylwer: Roedd y Cyngorwyr A. Davies, D. Phillips a G. Thomas wedi datgan buddiant personol yn yr eitem hon. Bu iddynt aros yn y cyfarfod ac yn cymryd rhan yn y trafodaethau a'r pleidleisio yn eu cylch.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar Strategaeth Cyllideb Refeniw y Cyngor 2023/24 i 2025/26, fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet at ddibenion ymgynghori yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2023. Roedd yr adroddiad yn darparu'r sefyllfa bresennol i'r Aelodau ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2023/2024, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2024/2025 a 2025/2026, yn seiliedig ar ragamcanion ynghylch gofynion gwariant y swyddogion ac yn ystyried y setliad amodol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 14 Rhagfyr 2022.

Dywedodd y Pwyllgor, er bod y setliad amodol a gyhoeddwyd yn cynrychioli cynnydd cyfartalog o 8.0% ledled Cymru ar setliad 2022/23, fod cynnydd Sir Gaerfyrddin wedi bod yn 8.5% (£26.432m) gan felly gymryd y Cyllid Allanol Cyfun i £338.017m ar gyfer 2023/24. Er bod y setliad yn sylweddol uwch na'r ffigur dangosol cychwynol, sef cynnydd o 3.4%, ac yn darparu tua £15.5m yn fwy na rhagdybiaeth wreiddiol y Cyngor, roedd Llywodraeth Cymru wedi cydnabod na fyddai'r ffigur cynyddol yn ddigonol o hyd i ymdopi â'r pwysau chwyddiant oedd yn wynebu cynghorau, dyfarniadau cyflog, a'r cynnydd mewn prisiau tanwydd, ac roedd penderfyniadau anodd i'w gwneud.

Tra bo cynigion y gyllideb yn tybio bod yr holl gynigion am arbedion yn cael eu cyflawni'n llawn, nodwyd byddai angen gwneud gwaith pellach i ddatblygu'r gostyngiadau mewn costau ar gyfer blynyddoedd ariannol 2024/25 a 2025/26 er mwyn gallu cynnal y Strategaeth Cyllideb a'r lefel Treth Gyngor presennol.

Dywedwyd, o ystyried risgiau presennol Strategaeth y Gyllideb a'r cefndir parhaus o ran chwyddiant ynghyd â gwasgfeydd cyllidebol eraill, fod y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2023/24 wedi'i osod yn 7% i liniaru gostyngiadau i wasanaethau critigol. Ym mlynnyddoedd 2 a 3 roedd y darlun ariannol dal yn ansicr, ac, o'r herwydd, roedd codiadau dangosol enghreifftiol o 4% a 3% yn y Dreth Gyngor wedi cael eu gwneud at ddibenion cynllunio'n unig, gan geisio taro cydbwysedd gyda'r gostyngiadau yn y gyllideb. Byddai'r cynigion hynny yn cael eu hystyried gan y Cyngor wrth bennu lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2023/24 yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2023. Yn ogystal, roedd ffigur setliad terfynol Llywodraeth Cymru i gael ei gyhoeddi ar 7 Mawrth 2023 a byddai unrhyw ddiwygiadau yr oedd yn ofynnol eu hystyried i strategaeth y gyllideb o'r cyhoeddiad hwnnw hefyd yn cael eu hystyried gan y Cyngor.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth gyllidebol fanwl ganlynol a oedd wedi'i hatodi i'r Strategaeth ac a oedd yn berthnasol i'w faes gorchwyl:

- **Atodiad A(i)** – Crynodeb effeithlonrwydd ar gyfer Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd;
- **Atodiad A(ii)** – Crynodeb o'r Pwysau Twf ar gyfer Gwasanaeth yr Amgylchedd;
- **Atodiad B** – Adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd;
- **Atodiad C** – Crynhoad Taliadau ar gyfer Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

Ymholiadau a godwyd ar yr Atodiad Ai (Cynigion Arbedion):

- Cyfeiriwyd at Reoli Traffig a gweithredu cynlluniau diogelwch ffyrdd/rheoli cyflymder. O ran y disgrifiad o'r arbedion effeithlonrwydd 'Moratoriwm tair blynedd ar derfynau cyflymder newydd sydd heb eu cynnwys o fewn deddfwriaeth 20mya oni bai bod mater diogelwch hollbwysig', dywedwyd bod tair blynedd yn amser hir a gofynnwyd a ellid delio â hyn ar y cyd â'r broses o gyflwyno'r ddeddfwriaeth 20mya newydd? Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth fod y newid i'r terfyn cyflymder diodyn o 30mya i 20mya sy'n effeithio ar bob ardal breswyl yn ddarn cynhwysfawr o waith oedd yn cynnwys llawer o adnoddau. Dywedwyd bod y moratoriwm yn realistig o ran y gwaith helaeth sydd ei angen.
- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y disgrifiad o'r arbedion effeithlonrwydd - Arloesi Diogelwch ar y Ffordd ym maes Rheoli Traffig, esboniodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth y byddai adroddiad ar Noddi Cylchfannau ar gael cyn bo hir. Roedd y tîm priffyrdd wedi bod yn gweithio i ddod o hyd i ffyrdd a dulliau o gynyddu refeniw yn enwedig yn dilyn y pandemig ac roedd nawdd yn ddull a fyddai'n darparu incwm yr oedd mawr ei angen.

- Wrth gyfeirio at y Cludiant Ysgol a'r disgrifiad o'r arbedion effeithlonrwydd o ran Cyllidebau Teithio Personol Anghenion Ychwanegol, gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â'r broses dalu. Esboniodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth fod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ar hyn o bryd yn cael opsiwn o gael mynediad at gludiant arbenigol. Mewn achosion lle mae gan rieni gerbydau symudedd arbenigol, cafodd cyllideb deithio bersonol ei chynnig a fyddai'n destun cais sy'n cael ei wneud gan y rhiant.

Mewn ymateb i ymholiad pellach, esboniodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth y byddai polisi ffurfiol yn cynnwys proses ddilysu drylwyr gan sicrhau bod ad-daliadau yn ddilys ac wedi'u gwneud i'r person cywir.

- Wrth gyfeirio at y Safleoedd Casglu, gofynnwyd a fyddai strategaeth yn y dyfodol ac a fyddai'r cymunedau yn dal i allu eu defnyddio. Esboniodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod nifer o safleoedd casglu yn cynnwys cyfleusterau i ailgylchu gwydr, tecstilau a nwyddau trydan ar hyn o bryd a fyddai'n cael eu cadw yn y tymor hir. Fodd bynnag, byddai'r safleoedd casglu sy'n cynnig casgliadau gwydr yn unig yn cael eu mapio yn erbyn y galw presennol a'r gwasanaeth casglu gwydr a lansiwyd yn ddiweddar. Byddai canlyniadau'r dadansoddiad yn llywio rhesymoli'r safleoedd casglu dros y 12 mis nesaf gyda'r bwriad gael gwared ar hyd at 50% erbyn 2024.

Ar ben hynny, pwysleisiwyd i'r Aelodau gan yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, o ystyried y ffaith bod y Cyngor yn atebol am ddirwy o £160k am bob 1% yn is na tharged statudol Llywodraeth Cymru na chaiff ei gyrraedd, ei bod yn bwysig i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o bwysigrwydd ailgylchu, nid yn unig ar gyfer y manteision i'r amgylchedd ond o safbwynt ariannol.

- Cyfeiriwyd at Gynnal a Chadw Eiddo. O ran y mesurau effeithlonrwydd ynni, dywedwyd bod Awdurdod cyfagos yn ceisio gwneud gostyngiad yn nhymeredd swyddfeydd i 19 gradd er mwyn arbed £26k. O ystyried hyn, gofynnwyd a oedd yr Awdurdod hwn yn edrych ar arbedion effeithlonrwydd tebyg? Dywedwyd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd fod Cyngor Sir Powys, yn debyg i Gyngor Sir Caerfyrddin, wedi ymrwmo i gyflawni Sero Net erbyn 2030. Atgoffwyd Aelodau, fel y nodwyd yn y Cynllun Sero Net a gyflwynwyd yn gynharach eleni, fod yr Awdurdod wedi gwneud lleihad carbon o 34%, ond wrth ddadansoddi ymhellach roedd yn amlwg bod trydan 21% yn llai ac roedd nwy (gwres) ond 11% yn llai. Ychwanegodd, er bod ymdrech sylweddol wedi digwydd i leihau carbon, mai un o'r heriau oedd bod gan yr Awdurdod hwn, fel nifer o Awdurdodau, lawer o hen adeiladau oedd yn anodd eu rhannu'n barthau. Byddai data o ran y defnydd o ynni yn parhau i gael ei gasglu er mwyn llywio lle y byddai angen ymyriadau.
- Cyfeiriwyd at Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Awgrymwyd y dylai'r Awdurdod fod yn ystyried opsiynau eraill ee. gweithio ar draws ffiniau neu gyflwyno tâl i'w defnyddio. Yn ogystal, wrth ddweud bod yr oriau agor mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref i'w gweld yn rhy gyfyng i'r cyhoedd sy'n gweithio 9-5 yn ystod yr wythnos, awgrymwyd bod oriau gweithredu'r holl safleoedd yn cael eu hail-ystyried.

Dywedwyd ymhellach bod staff asiantaeth yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ar safleoedd y Canolfannau Ailgyrchu Gwastraff y Cartref ac y gallai'r defnydd o staff parhaol fod yn fwy effeithiol o ran cost. Esboniodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod Canolfannau Ailgyrchu Gwastraff y Cartref ar hyn o bryd yn cynnig gwasanaethau am ddim i ddeiliaid tai a phreswylwyr Sir Gaerfyrddin a bod ffioedd blaenorol ar gyfer cwsmeriaid gwastraff masnach ar waith a gyflwynodd broblemau sylweddol o ran ciwio a chreu oedi gormodol i breswylwyr sy'n defnyddio'r safleoedd. Mewn ymateb, dargyfeiriwyd gwastraff masnach i'r cyfleuster gwastraff masnach yn Nant-y-caws, Caerfyrddin. Amlygwyd bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac y byddai unrhyw awgrymiadau ac adborth yn ymwneud â'r gweithrediadau a'r oriau yn cael eu croesawu drwy'r broses ymgynghori. O ran goblygiadau staffio, dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff y byddai'n gofyn am eglurhad pellach gan Cwm Environmental Ltd.

- Cyfeiriwyd at y Gwasanaethau Parcio. O ran y disgrifiad o'r arbedion effeithlonrwydd i ddechrau codi tâl mewn 9 maes parcio, oedd ar hyn o bryd am ddim i'w defnyddio, awgrymwyd y dylid edrych ar bob maes parcio fesul achos. Teimlwyd, drwy gyflwyno taliadau am faes parcio sydd am ddim yn bresennol, y byddai'n cael effaith andwyol ar fusnesau cyfagos ac yn tansellio eu hyfywedd. Wrth godi pryder, gofynnwyd a fyddai'r incwm yn fwy na'r gost o godi tâl ac a oes unrhyw ymchwil neu arolwg wedi cael eu gwneud i gefnogi'r cynnig? Esboniodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth y bydd yr holl daliadau mewn meysydd parcio yn gyson â thollau parcio tebyg o fewn y Sir. Amlygwyd, er y byddai buddsoddiad cyfalaf tymor byr i gyflwyno'r newidiadau parcio, byddai cynnydd i'r refeniw yn y tymor hir.

Cynigiwyd yn ffurfiol, o ran y cynnig ar gyfer cyflwyno taliadau parcio yn y 9 maes parcio, fel y nodwyd yn yr adroddiad, eu bod yn cael eu hadolygu gan yr Aelod Cabinet fesul achos. Eiliwyd y cynnig hwn.

- Mewn ymateb i bryder a godwyd ynghylch y cynnig i waredu hyd at 20% o finiau sbwriel, dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff y byddai hynny'n cynnwys biniau sbwriel sydd wedi'u lleoli mewn cilfannau ar hyd y rhwydwaith cefnffyrdd ac ardaloedd nad ydynt yn fwynderau yn bennaf. Awgrymodd ymchwil fod y sbwriel yn yr ardal honno wedi gwella lle mae biniau sbwriel wedi cael eu gwaredu oddi yno. Byddai biniau mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o ymwelwyr yn cael eu cadw. Byddai cael gwared ar y biniau yn broses a reolir.

Gofynnwyd, cyn gwaredu bin sbwriel, a ellid ymgynghori ag aelodau'r ward priodol? Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff y byddai rhestr yn cael ei darparu i aelodau'r ward. Gwnaed sylwadau mewn cytundeb bod biniau yn aml yn denu sbwriel ac yn cydnabod yr angen i waredu biniau sbwriel a'u gosod yn strategol.

Ymholiadau a godwyd ar Atodiad C (Crynhoad Taliadau):

- Cyfeiriwyd at y cynnig i gynyddu'r Ffi Gweinyddu ar gyfer Hawlenni Parcio Preswylwyr. Gwelwyd bod y cynnig yn dweud ei fod yn cael ei gynyddu 10%. Fodd bynnag, roedd y cynnydd arfaethedig yn y gost a nodwyd yn yr adroddiad, o £30 i £40, yn fwy na'r 10%. Awgrymwyd cynyddu'r ffi i £50, fyddai'n cyfateb i lai na £1 yr wythnos i breswylwyr. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau mai'r rhesymeg y tu ôl i'r cynnydd o £10 oedd nad oedd cynnydd wedi ei wneud ers 2009.
- Cyfeiriwyd at yr Hysbysiadau Cosb Benodedig. Esboniodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd fod y taliadau wedi'u hamlinellu yn Atodiad C ar gyfer yr Aelodau, ond cynigiodd amser ychwanegol i'r Pwyllgor Craffu pe dymunant i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen gynnal yr adolygiad ar reoli tipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin i ystyried tâl yr Hysbysiad Cosb Benodedig cyn dod i gytundeb. Dywedodd y Cadeirydd wrth ddiolch i'r Aelod Cabinet, y byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn sicrhau y byddai'r tâl mewn perthynas â'r Hysbysiad Cosb Benodedig ar gyfer tipio anghyfreithlon yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad.
- Mewn ymateb i ymholiad a godwyd o ran y Cynllun Prynu â Hyder, cadarnhaodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel wrth gynnig dosbarthu'r union niferoedd aelodaeth i'r cynllun i Aelodau yn dilyn y cyfarfod, fod y cynllun yn cael ei hyrwyddo'n weithredol.
- Ystyried y gyllideb, codwyd cwestiwn cyffredinol ynghylch y targedau Sero Net. Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd
- Mewn ymateb i ymholiad cyffredinol a godwyd mewn perthynas ag effaith y gyllideb a thargedau Sero Net, nododd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd y byddai cyfyngiadau cyllidebau yn naturiol yn herio'r uchelgais i gyrraedd carbon Sero Net erbyn 2030. Fodd bynnag, roedd pecyn cymorth wedi'i gyflwyno a oedd yn galluogi modelu gwahanol senarios i lywio'r dull gorau o ran sut i gyrraedd y targed o fod yn Sero Net erbyn 2030 yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.

PENDERFYNWYD:-

- 5.1 derbyn Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2023/24 i 2025/26;**
- 5.2 derbyn y cynigion ar gyfer cyflawni arbedion effeithlonrwydd fel y nodwyd yn Atodiad A(i);**
- 5.3 bod y Crynhoad Taliadau ar gyfer Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd, fel y manylir yn Atodiad C i'r adroddiad, yn cael ei dderbyn;**
- 5.4 bod y cynnig ar gyfer cyflwyno taliadau parcio yn y 9 maes parcio fel y nodir yn yr adroddiad yn cael ei adolygu gan yr Aelod Cabinet fesul achos.**

6. LLAWLYFR CYNNAL A CHADW Y CYNLLUN RHEOLI ASED AU PRIFFYRDD - RHANNAU 4.5, 4.6 A 4.7

Cafodd y Pwyllgor Lawlyfr Cynnal a Chadw'r Cynllun Rheoli Asedau Priffordd i gefnogi'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith.

Gofynnodd yr adroddiad i'r Pwyllgor ystyried a rhoi sylwadau ar y rhannau canlynol sydd ynghlwm wrth yr adroddiad cyn i'r Cabinet ei fabwysiadu.

Rhan 4.5 - Rheoli Draenio Priffyrdd

Rhan 4.6 - Rheoli Geotechnegol

Rhan 4.7 - Ymateb Brys ar y Priffyrdd

Codwyd y sylwadau/ymholiadau canlynol ynghylch yr adroddiad:-

- ran cwteri a draeniad, codwyd pryder bod cwteri ar ffyrdd trac sengl wedi'u llenwi'n raddol er mwyn osgoi ceir yn disgyn i mewn ac wrth wneud hynny mae wedi cael gwared ar allfa hanfodol ar gyfer dŵr sy'n cyfrannu at lifogydd. Yn ogystal, deallwyd bod CNC yn hoffi gosod canghennau mewn cwteri er mwyn ceisio arafu llif y dŵr. O ran y sylwadau, gofynnwyd sut y cafodd y rhain eu rheoli?
Esboniodd Rheolwr y Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth fod gan y rhan fwyaf o gwteri ar hyd y rhwydwaith priffyrdd system swmp. Y system swmp sydd angen bod yn glir er mwyn rheoli llif y dŵr.
- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch cyfrifoldebau tirlfeddiannwyr cyfagos, esboniodd Rheolwr y Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth, o ran y llif o'r system draenio priffyrdd i dir cyfagos, y byddai gan awdurdod priffyrdd hawl ragnodol fel arfer i lifo i'r tir. Fodd bynnag, yn achos dŵr sy'n llifo o dir cyfagos i'r briffordd, amlygwyd bod hwn yn fater mwy cymhleth a byddai angen ystyried pob achos.
- ran cyd-gyfrifoldeb CNC a'r Cyngor i gadw dyfrffyrdd yn glir, gofynnwyd sut y rheolwyd hyn? Esboniodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth ei fod yn gymhleth ond, yn syml, CNC oedd yn gyfrifol am brif afonydd a chyrsgau dŵr ac roedd gan y Cyngor gyfrifoldeb am nentydd llai a sgriniau sbwriel. Os bydd rhybuddion tywydd garw, byddai gwiriadau ar y sgriniau sbwriel perthnasol yn cael eu gwneud i sicrhau nad oedd unrhyw ymyrraeth i lif y dŵr.
- Cyfeiriwyd at bibellau draenio a nodwyd yn adran 4.5.2 Gwybodaeth Asedau Draenio. Gofynnwyd pwy oedd yn gyfrifol am bibellau tanddaearol yn y system draenio priffyrdd? Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth mai un o'r materion cyffredin yw gwreiddiau coed yn mynd i mewn i bibellau a bod datrys hyn yn gallu defnyddio llawer o adnoddau. Fel arfer, y tirlfeddiannwr cyfagos fyddai'n gyfrifol am y goeden ac felly mae'n achos syml, ond yn y mwyafrif o achosion byddai'n rhaid i'r Cyngor dderbyn rhywfaint o atebolrwydd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd - Rhannau 4.5, 4.6 a 4.7

7. DEDDFWRIAETH TERFYN CYFLYMDER 20MYA LLYWODRAETH CYMRU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad ar Ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru ynghylch y terfyn cyflymder o 20 mya, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith, oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaf am y newid yn y ddeddfwriaeth sy'n cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2023. Byddai'r ddeddfwriaeth yn lleihau'r terfyn cyflymder diofyn 30mya presennol ar ffyrdd cyfyngedig (â goleuadau stryd) mewn ardaloedd preswyl i 20mya.

Codwyd y sylwadau/ymholiadau canlynol ynghylch yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at gyllid grant Llywodraeth Cymru o £797,074 a oedd ar gael yn 2022/23 ac y byddai ceisiadau pellach yn cael eu gwneud ar gyfer y blynyddoedd canlynol ac y rhagwelwyd y byddai hyn yn cyfateb i oddeutu £2.16M yn 2023/24. Gofynnwyd i swyddogion pa mor obeithiol oedden nhw o ran sicrhau'r arian grant? Ac os nad oeddent, a fyddai'r arian yn dod o'r gyllideb?
- Esboniodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth, gan fod Llywodraeth Cymru yn gwbl ymroddedig i ariannu'r gwaith o weithredu'r ddeddfwriaeth 20mya ynghyd â chyfathrebu cadarnhaol, ei fod yn hyderus y byddai'r cais yn llwyddiannus.
- Codwyd pryderon mewn perthynas â'r canlynol:
 - yr adnoddau a fyddai'n cael eu hymrwymo i weithredu'r newid mewn terfyn cyflymder ac;
 - y gwaith gorfodi sydd ei angen i wella diogelwch. Gofynnwyd a oedd yn bosibl i'r Pwyllgor neu'r Cyngor hwn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am arian ar gyfer swyddogion gorfodi ychwanegol;
 - O ran terfynau'r holl ffyrdd 30mya mewn ardaloedd preswyl yn cael eu lleihau i 20mya gofynnwyd a ellid newid hyn yn ôl-weithredol, os felly sut?

Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth fod prosiect wedi'i sefydlu i gyflawni'r fenter hon lle cytunwyd i gadw'r gwaith yn fewnol yn hytrach na defnyddio ffynonellau allanol drwy ymgynghoriadau. Y manteision oedd bod gan swyddogion wybodaeth ymarferol gadarn am derfynau cyflymder, gorchmynion rheoleiddio traffig a gwybodaeth leol a fyddai'n gwasanaethu'r prosiect a'r cymunedau yn well. Ar ben hynny, roedd amser swyddogion yn cael ei ariannu drwy'r grant. Wrth gydnabod bod y tîm yn fach gydag amser cyfyngedig, i helpu i reoli hyn, wedi'i gynnwys fel rhan o gynigion y gyllideb oedd moratoriwm ar Orchmynion Rheoleiddio Traffig tra bod y ddeddfwriaeth hon yn cael ei chyflwyno. Fodd bynnag, rhoddwyd sicrwydd pe byddai diogelwch yn bryder sylweddol y byddai'r achos yn cael ei ystyried yn unol â hynny.

O ran gorfodi, esboniodd Rheolwr y Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth, er y gellid gorfodi drwy'r Heddlu a'r Bartneriaeth Gan Bwyll yn unig, y byddai pecyn adnoddau ar gael i gymunedau fel rhan o'r fenter a fyddai'n eu galluogi i sefydlu mentrau gwyllo cyflymder cymunedol. Byddai cymunedau'n gallu monitro cyflymderau gwirioneddol yn hytrach na chyflymderau canfyddedig a datblygu arolygon i ddeall lefelau diffyg cydymffurfio. Gallai'r wybodaeth a gesglir gael ei darparu i'r heddlu er mwyn iddyn nhw cymryd y camau priodol. Roedd y pecyn adnoddau hwn wedi'i gynnwys yn y cais.

Gwnaeth Rheolwr y Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth gydnabod y byddai problemau yn debygol pan fydd y ddeddfwriaeth mewn grym ym mis Medi 2023, o ran barn cymunedau ac mewn rhai achosion efallai y bydd angen adolygu terfynau cyflymder. Pe bai achos i newid terfyn cyflymder gallai hyn ddigwydd drwy'r broses Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad ar Ddeddfwriaeth Terfyn Cyflymder 20MYA.

8. STRATEGAETH FARCHOGAETH SIR GAERFYRDDIN

Cafodd y Pwyllgor adroddiad ar y Diweddariad ynghylch Strategaeth Farchogaeth Sir Gaerfyrddin, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith. Roedd datblygu Strategaeth Farchogaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn ymrwymiad yng Nghynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin 2019-2029. Roedd swyddogion yn y broses o ddatblygu'r Strategaeth Farchogaeth a rhoddwyd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed.

Codwyd y sylwadau/ymholiadau canlynol ynghylch yr adroddiad:-

- Wrth gydnabod y rhwydwaith enfawr i'w reoli, codwyd pryder bod yr adran yn cael ei thanariannu, a bod angen buddsoddiad pellach cyn i'r rhai o'r llwybrau gael eu colli.
- Dywedwyd y byddai'n fuddiol i'r Strategaeth derfynol gynnwys map llwybrau ceffylau. Yn ogystal, er ei bod yn bleserus nodi bod dros 500 o ymatebion wedi dod i law yn dilyn yr arolwg cyhoeddus cynhwysfawr rhwng 21 Mehefin 2021 a 25 Gorffennaf 2021, gofynnwyd a allai'r Pwyllgor gael crynodeb o'r ymatebion er mwyn ystyried y sylwadau a'r data. Cytunodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth.
- Wrth ddweud nad oedd llawer o lwybrau ceffylau ar ôl mewn rhai ardaloedd, gofynnwyd a oedd modd newid llwybrau troed yn llwybrau ceffylau. Esboniodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth, gan fod hyn yn rhywbeth newydd o ran Strategaeth Farchogaeth, fod angen gwneud ymchwil er mwyn deall anghenion y sector Marchogaeth ymhellach. Yn dilyn dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd, byddai angen ystyried yr adnoddau sydd ar gael er mwyn datblygu strategaeth realistig y gellir ei chyflawni. Hyd nes y bydd y darn hwn o waith wedi'i gwblhau, nid oedd modd penderfynu a oedd lefel yr adnoddau ar gael i reoli unrhyw newidiadau i'r llwybrau troed/llwybrau ceffylau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y Diweddariad ynghylch Strategaeth Farchogaeth Sir Gaerfyrddin.

9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o eitemau i gael eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf oedd i'w gynnal ar 24 Chwefror 2023 a rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor wneud cais am unrhyw wybodaeth benodol yr hoffai'r Aelodau ei chynnwys yn yr adroddiadau.

Yn ogystal â'r adroddiadau a oedd i'w cyflwyno yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Craffu ar 24 Chwefror, nododd yr Aelodau'r adroddiadau a fyddai hefyd yn cael eu dosbarthu iddynt y tu allan i broses ffurfiol y Pwyllgor i graffu.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y rhestr o'r eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 24 Chwefror 2023.

10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 RHAGFYR 2022

PENDERFYNWYD Ilofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2022 yn gofnod cywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD